



Cyfiawnder Troseddol
yng Nghymru

**Criminal Justice
in Wales**

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru (BCTC): 14 Rhagfyr 2021

Camau Gweithredu/Penderfyniadau Allweddol

- Y grŵp llywio Cyfiawnder Troseddol fydd yn parhau i fod y cyfrwng ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau strategol a wynebir yn sgil Omicron.
- Bydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn awr yn cael ei alw'n Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru i sicrhau bod pawb yn ymwybodol bod yna ffwrdd strategol i Gymru.
- Ffrydiau Gwaith BCTC
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol i amlinellu llwyddiannau'r Bwrdd yn 2021-2022.
- Bydd rhaglen waith 2021-2022 yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod y ffrydiau gwaith ar gyfer pob blaenoriaeth yn gywir. Yng nghyfarfod mis Mawrth bydd amser wedi'i neilltuo i'r aelodau gytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023.

Blaenoriaeth 1: Pobl sydd wedi troseddu - camau gweithredu/ penderfyniadau allweddol

- Bydd IOM Cymru yn adrodd i BCTC bob chwarter i ddangos cynnydd yn erbyn fframwaith Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi i 'gefnogi newid cadarnhaol ar gyfer y rhai hynny sydd mewn perygl o aildroseddu' a chodi unrhyw bwyntiau sydd o bosibl yn gofyn am eu huwchgyfeirio.
- Bydd y tirlun aildroseddu'n cael ei adolygu er mwyn deall yr amrediad llawn o fentrau lleihau aildroseddu.

Blaenoriaeth 2: Dioddefwyr a Thystion – camau gweithredu/penderfyniadau allweddol

- Mae gwaith yn parhau i sicrhau cydlynid ar y modd yr ymdrinnir â, ac y goruchwylir achosion o drais a chamdriniaeth rywiol ddifrifol.
- Asesu'r angen am adnodd dadansoddol i gefnogi'r modd y caiff achosion o drais a chamdriniaeth rywiol ddifrifol eu trin/ymchwilio iddynt

Blaenoriaeth 3: Cydraddoldeb Hiliol – camau gweithredu/penderfyniadau allweddol

- Datblygu fframwaith seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn darparu 'cynnig' o safon ofynnol i sefydliadau Plismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru weithio tuag atynt. Bydd y fframwaith yn gweithio tuag at greu gweithlu Diwylliannol Gymwys, Addysgedig a Chynrychioliadol.
- Parhau i ledaenu hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol ar draws Cymru.
- 3 gweithdy Sganio'r Gorwel wedi'u cynnal ym mis Chwefror 2022, yn cynnwys un ar gyfer aelodau'r Bwrdd Gweithredol, uwch reolwyr a rhanddeiliaid.
- Cynnig BCTC a Llywodraeth Cymru wedi'i gytuno er mwyn sicrhau cydweithio agos ar draws Cymru.

Blaenoriaeth 4: Ymyrraeth Gynnar ac Atal – camau gweithredu/penderfyniadau

- Anaf i'r Ymennydd wedi'i gynnwys yn y flaenoriaeth hon fel ffrwd waith Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu ym mis Ionawr 2022 gyda swyddogion seicoleg arweiniol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i symud gwaith yn ei flaen.
- Sleidiau cyflwyniad wedi'u darparu i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i grynhoi casgliadau'r adroddiad ymyrraeth gynnar ac ataliad a oedd yn mapio'r rhaglenni ymyrraeth gynnar ac ataliad sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Bydd Gogledd Cymru yn defnyddio'r adroddiad i weld a yw eu cyfarfod 'cadeirydd cadeiryddion' yn ddull effeithiol o fynd i'r afael â materion trawsbynciol a rhannu'r gwersi gyda BCTLI eraill.

VAWDASV - y diweddaraf am y gweithlu

- Mapio ymyraethau cyflawnwyr trais rhywiol i'w ychwanegu at y flaenoriaeth *pobl sydd wedi troseddu* fel gweithred ychwanegol.
- Aelodau'r Bwrdd i ymateb i ymgynghoriad VAWDASV Llywodraeth Cymru a nodi'r angen am edefyn plant a phobl ifanc.
- Menter *Hafanau Diogel* wedi'i sefydlu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnig rhywle diogel i ferched fynd gyda'r nos. Bydd y fenter yn cael ei rhannu gyda'r aelodau i ystyried cynnig manau tebyg i bobl agored i niwed a phobl dan fygythiad.
- Rhannu adroddiad Estyn ar rywioli plant a phobl ifanc gyda'r aelodau

Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol - cydweithio - c

- Dogfen negeseuon allweddol wedi'i chynhyrchu a'i rhannu gyda'r rhwydwaith Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau ehangach i wella ymwybyddiaeth a chysylltedd rhwng Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.



Mae'r gweithgaredd isod yn dangos gwaith pob BCTLI yng Nghymru gan ddefnyddio'r pedair blaenoriaeth fel fframwaith i gofnodi cynnydd ac adnabod meysydd o synergedd.

<p>Dyfed Powys Cynllun Cyflawni'r BCTLI wedi'i gytuno arno</p> <p><u>Dioddefwyr</u></p> <ul style="list-style-type: none"> i) Cod Ymarfer Dioddefwyr (CYD/VCOP) Hunanasesiad ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i gwblhau, yn aros am ganlyniadau hap-samplu De Cymru a Gwent. ii) Trais a throseddau rhywiol (RASSO): Cyd-gynllun RASSO rhanbarthol wedi'i roi ar waith; gweithio gydag Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol i geisio deall pam bod rhai dioddefwyr yn gwrthod cymorth a chanolbwyntio ar hyrwyddo cyngor buan. Wedi cael £600k o gyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth trais rhywiol a chamdriniaeth ddomestig. iii) Cyfleusterau cyswllt fideo byw: Cyswllt fideo Llanelli'n barod i glywed achosion. Cyfathrebu mewnol wedi digwydd gyda'r Heddlu a staff Cyfiawnder Troseddol i dynnu eu sylw at y ffaith bod y lleoliad bellach ar waith a sut mae bwcio achosion. Mae'r dull hwn o gyfathrebu mewnol yr un fath ar draws Cymru. <p><u>Pobl sydd wedi troseddu:</u> Cafwyd £400k ar gyfer rhaglen ar gyfer cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig. Model Rheoli Troseddwr Integredig (IOM) wedi'i fabwysiadu</p> <p><u>Ymyrraeth Gynnar ac Ataliad:</u> llwybr gwasanaeth o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer plant a phobl ifanc. Mapio gweithgaredd i atal trais difrifol.</p> <p><u>Cydraddoldeb Hiliol</u>– mynychu grŵp strategol Cymru gyfan a chyd-gadeirio grwpiau tasg data.</p>	<p>Gwent Cynllun Cyflawni'r BCTLI wedi'i gytuno arno</p> <p><u>Dioddefwyr</u></p> <ul style="list-style-type: none"> i) Cod Ymarfer Dioddefwyr (CYD/VCOP) : Ymarfer hap-samplu peilot y Cod Ymarfer Dioddefwyr wedi'i gwblhau Casgliadau wedi'u hadrodd mis Chwefror 2022 a'r grŵp tasg ar gyfer Cymru wedi'i sefydlu. Llwyddiant yr Uned Gofal Dioddefwyr o ran presenoldeb dioddefwyr yn y llys ii) RASSO: Cyd-gynllun RASSO rhanbarthol wedi'i roi ar waith. Panel adolygu Gwent wedi'i sefydlu. Canolbwyntio ar hyrwyddo cyngor cynnar. iii) Cyfleusterau cyswllt fideo byw: Cyfleusterau Casnewydd wedi'u hoedi o ganlyniad i broblemau gyda'r rhyngwyd DGHT yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i oresgyn yr anawsterau. <p><u>Pobl sydd wedi troseddu:</u> Strategaeth droseddu'n cael ei datblygu. Y broses troseddau adroddadwy yn fyw. Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod wedi'i gwerthuso. Cyfuno Iechyd Meddwl ar draws y Dull Rhaglen Fraenaru i Ferched. Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn parhau i gael cyllid i gynnig ymyraethau iechyd meddwl lefel isel.</p> <p><u>Ymyrraeth Gynnar ac Ataliad</u> Prosiect drysau troi ar gyfer troseddwr lefel isel yn cael ei roi ar waith yn y dalfeydd. Archwiliadau Thematig o Wasanaethau Troseddau/Cyfiawnder Ieuencid yn ymwneud â genethod ac adsefydlu yn dechrau ym mis Tachwedd 2021. Gwreiddio gwasanaeth YTDA yn y canolfannau diogelu.</p> <p><u>Cydraddoldeb Hiliol</u>– mynychu grŵp strategol Cymru gyfan a grwpiau tasg. Cadeirydd y BCTLI yn cadeirio'r Grŵp Tasg Cyfathrebu ac Ymgysylltu Y Prif Gwnstabl yw'r cyd-swyddog blaen strategol ar gyfer Cymru. Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol sy'n cadeirio'r grŵp tasg data.</p>
<p>Gogledd Cymru Cynllun Cyflawni'r BCTLI wedi'i gytuno arno.</p> <p><u>Dioddefwyr</u></p> <ul style="list-style-type: none"> i) Cod Ymarfer Dioddefwyr (CYD/VCOP): yn aros am ganlyniadau hap-samplu De Cymru a Gwent Adolygiad o wasanaethau dioddefwyr wedi'i gomisiynu Rhaglen 'rwy'n bwysig' wedi'i lansio ar gyfer goroeswyr camdriniaeth ddomestig 16+ oed. ii) RASSO: Cyd-gynllun RASSO rhanbarthol wedi'i roi ar waith. Cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng Gwasanaeth Erllyn y Goron â'r heddlu bob dau fis i adolygu achosion. Canolbwyntio ar hyrwyddo cyngor cynnar (yr un fath ar draws Cymru) iii) Cyfleusterau cyswllt fideo byw: Tri safle'n mynd yn fyw ym mis Ionawr. <p><u>Pobl sydd wedi troseddu:</u> Strategaeth Troseddwr Benywaidd Gogledd Cymru i'w rhoi ar waith. Sefydlu Grŵp Cyflawni Merched yn y System Cyfiawnder Troseddol, i adrodd i Fwrdd Cyfiawnder newydd Gogledd Cymru. Peilot Cynadleddau Achosion Merched yn parhau.</p> <p><u>Ymyrraeth Gynnar ac Ataliad</u> Gellir Atgyfeirio plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiadau (yn y cartref, yn yr ysgol neu yn y gymuned) sy'n nodi risg at gyfiawnder yr ifanc. Bydd rhai sydd wedi troseddu am y tro cyntaf/wedi cyflawni man droseddau'n mynd i mewn i'r broses Biwro ac yn osgoi erlyniad neu gael eu labelu ymhellach fel troseddwr. Grŵp tasg Trais yn Erbyn Merched a Genethod</p> <p><u>Cydraddoldeb Hiliol</u>– Dyfed Powys yn mynychu grŵp strategol Cymru gyfan a grwpiau tasg.</p>	<p>De Cymru Cynllun Cyflawni'r BCTLI wedi'i gytuno arno.</p> <p><u>Dioddefwyr</u></p> <ul style="list-style-type: none"> i) Cod Ymarfer Dioddefwyr (CYD/VCOP) : Ymarfer hap-samplu peilot y Cod Ymarfer Dioddefwyr wedi'i gwblhau Casgliadau wedi'u hadrodd mis Chwefror 2022 a'r grŵp tasg ar gyfer Cymru wedi'i sefydlu. ii) RASSO: Ymgyrch Soteria yn mynd yn fyw 2022, gwaith eisoes wedi dechrau. Cynhadledd RASSO yr Heddlu ar 9 Rhag – partneriaid yn cynnwys YTDA i fynychu iii) Cyfleusterau cyswllt fideo byw: 5 safle VAWDASV yn fyw. Mae'r rhain yn ychwanegol at Dŷ Cadoxton, y Bari. Mae dau safle VAWDASV yng Nghaerdydd nad ydynt yn yw eto, gwaith ar y gweill i geisio datrys materion ar y safleoedd cyn gynted â phosibl. <p>Rhwydwaith Dioddefwyr a Goroeswyr wedi'i sefydlu i drafod materion allweddol ar gyfer dioddefwyr VAWDASV yn y lle cyntaf. Ailfodelu'r ddarpariaeth Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol. Gweithgor i wella llwybrau cymorth ar gyfer dioddefwyr troseddau wedi'i sefydlu</p> <p><u>Pobl sydd wedi troseddu:</u> Adroddiad perfformiad wedi'i gytuno arno. Ymdriniaeth 2 haen datrysiaid y tu allan i'r llys yn y Ddalfa. Datblygu Ap i gefnogi staff rheng flaen. Panel craffu ieuencid wedi'i sefydlu. Cais am gyllid ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar wedi'i gyflwyno; gwaith mapio a chydlynu canllawiau Y2A, glasbrint ac agenda oedolyn ifanc. Aseiad lles iechyd meddwl cam 1 wedi cychwyn. Cynllun Cyflawnwyr Camdriniaeth Ddomestig ar gyfer De Cymru i gyd wedi'i roi ar waith.</p> <p><u>Ymyrraeth Gynnar ac Ataliad</u> Gan ddefnyddio adroddiad BCTC, ataliad sylfaenol, trafod yn y cyfarfod nesaf.</p> <p><u>Cydraddoldeb Hiliol</u> - y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yw cadeirydd y Grŵp Cydraddoldeb Hiliol Strategol.</p>